## GORCHYMYN Y B4355 (NORTON, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 30 MYA DROS DRO AR GYFER CERBYDAU ESEMPT) 2026

Mae Gweinidogion Cymru, gan weithredu ar ran Cyngor Sir Powys yn unol â threfniadau a wnaed rhwng Cyngor Sir Powys a Gweinidogion Cymru o dan adran 83(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi gwneud Gorchymyn, drwy arfer eu pwerau o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae angen y Gorchymyn er mwyn cynnal digwyddiad beicio y "Marches 3-Day Road Race" yn Norton, Powys a gerllaw iddo.

Effaith y Gorchymyn yw rhoi caniatâd dros dro i gerbydau modur a ddefnyddir gan swyddogion awdurdodedig y digwyddiad gael eu gyrru ar gyflymder heb fod yn gyflymach na 30 mya ar y darn o'r briffordd leol sy'n ymestyn o'r arwydd terfyn cyflymder 20 mya a leolir 20 metr i'r de o'i chyffordd â'r isffordd a elwir Wills View hyd at yr arwydd Terfyn Cyflymder Cenedlaethol a leolir 120 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â'r isffordd a elwir Offas Green. Bydd hyn yn eu galluogi i fod ychydig o flaen y ras er mwyn cyflawni eu dyletswyddau o sicrhau bod y ffordd yn glir a dal traffig, pan fo'n briodol. Bydd yn gweithredu "swigen ddiogelwch" a ddylai sicrhau bod y ras yn cael ei chynnal yn ddiogel i feicwyr a'r cyhoedd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 4 Mai 2026 a bydd yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf. Disgwylir mai dim ond rhwng 10:00 o'r gloch a 14:30 o'r gloch y bydd y cyfyngiad yn weithredol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE B4355 (NORTON, POWYS) (TEMPORARY 30 MPH SPEED LIMIT FOR EXEMPTED VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers, acting on behalf of Powys County Council pursuant to arrangements made between Powys County Council and the Welsh Ministers under section 83(1) of the Government of Wales Act 2006, have made an Order, in exercise of their powers under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984 and section 83 of the Government of Wales Act 2006, which is necessary to hold the "Marches 3-Day Road Race" cycling event at and near Norton, Powys.

The effect of the Order is to temporarily allow motor vehicles being used by authorised event officials to be driven at a speed not exceeding 30 mph on the length of the local highway that extends from the 20 mph speed limit sign located 20 metres south of its junction with the minor road known as Wills View to the National Speed Limit sign located 120 metres north of its junction with the minor road known as Offas Green. This will enable them to get a short distance ahead of the race to carry out their duties of ensuring the road is clear and holding traffic, where appropriate. It will implement a "safety bubble" that should ensure that the race is delivered safely for riders and the public.

The Order comes into force on 4 May 2026 and has a maximum duration of 1 day. The restriction is only expected to operate from 10:00 hours to 14:30 hours.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government